Bl7: Gwers 2: Cestyll

Nod y Wers: Disgrifio prif nodweddion castell mwnt a beili a'i chryfderau a gwendidau

Adeiladwyd cannoedd o gestyll ar hyd a lled Cymru yn ystod yr Oesoedd Canol. Roeddent yn bwysig am nifer o resymau fel ffordd o reoli'r bobl ac lle diogel i filwyr byw. Cestyll mwnt a beili adeiladwyd yn gyntaf yng Nghymru ac yna cestyll cerrig a chonsentrig.

Tasg 1: Ysgrifennwch 3 brawddeg yn disgrifio'r llun isod gan ddefnyddio ansoddeiriau a chymhariaethau e.e. Roedd y castell ar dir uchel i wylio dros bobl y pentref fel giraffe

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Tasg 2: Labelwch y llun gan ddefnyddio'r geirfa canlynol: mwnt, beili, ffos, pont godi, bwthyn, anifeiliaid, ffens pren, grisiau,

Tasg 3: Cysylltwch y geirfa gyda'r disgrifiadau cywir

Mwnt		Adeiladwyd hyn o gwmpas i rwystro ymosodwyr.
Beili		Roedd y pentrefwyr yn byw ynddynt.
Ffos		Dyma'r ffordd i gyrraedd y castell
Pont godi		Dyma yw'r bryn lle mae tŵr yr arglwydd. Golyga'r gair 'tomen o bridd'.
Bwthyn		Roedd y bobl yn bwyta rhain
Anifeiliaid		Adeilwyd hyn i atal bobl i fewn i'r safle.
Ffens pren		Beili yw gair Ffrangeg a olygir tir wedi ei gau i fewn. Y pentref.
Grisiau		Roedd angen i chi gerdded dros hwn er mwyn mynd mewn i'r safle

Dechreuodd y Normaniaid adeiladu cestyll mwnt a beili wrth iddynt goncro Cymru a Lloegr yn fuan ar ôl 1066. Cafodd cestyll mwnt a beili eu hadeiladu o bren a phridd. Roedd digon o bren a phridd ar gael yng Nghymru a Lloegr, felly roedden nhw'n gyflym ac yn hawdd i'w hadeiladu. Fel arfer adeiladwyd castell o fewn wythnos – yn aml gan ddefnyddio'r Cymry fel caethweision i wneud y gwaith.

Tasg 4: Sgiliau Meddwl: Tabl MAD
Disgrifiwch beth oedd manteision ac anfanteision cestyll mwnt beili? Disgrifiwch beth sy'n ddiddorol amdanynt, yn eich barn chi?

Manteision	Anfanteision	Diddorol
e.e. anodd i ymosod arnynt	e.e. pren yn pydru	e.e Yr holl safle allan o bren

<u>Geirfa</u>

Adeiladu	*Build*
Rheoli	*Control*
Diogel	*Safe*
Milwyr	*Soldiers*
Manteision	*Advantages*
Anfanteision	*Disadvantages*
Diddorol	*Interesting*
Caethweision	*Slaves*